PWYLLGOR PENODI - CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL ADNODDAU

DYDD GWENER, 5 HYDREF 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Huw Thomas(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Berman, Robson a/ac Weaver |

17 : YMDDIHEURIADAU (OS OES RHAI)

Y Cynghorydd Norma Mackie

18 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni ddaeth dim i law.

19 : CYLCH GORCHWYL

Nodi'r Cylch Gorchwyl a ganlyn:-

*"Cyflawni swyddogaethau'r awdurdod mewn perthynas â phenodi a diswyddo Prif Swyddogion a Dirprwy Brif Swyddogion (fel y'u diffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gorchmynion Sefydlog) (Cymru) 2006) a Phennaeth statudol y Gwasanaethau Democrataidd, yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Cyflogaeth ac unrhyw bolisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill y Cyngor".*

20 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Medi 2018 fel gwir gofnod.

21 : EITHRIO'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Gwahardd y cyhoedd yn ystod y drafodaeth ynglŷn â'r eitem fusnes ganlynol ar y sail y datgelid gwybodaeth a eithrir, fel y'i diffinnir yn Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac fel y'i diffinnir isod, i aelodau'r cyhoedd pe byddent yn bresennol yn ystod y drafodaeth, oherwydd natur y busnes i'w drafod.

Paragraff 12 – Gwybodaeth sy'n ymwneud chais i ddod yn gyflogai i'r Awdurdod; a

Paragraff 13 – Gwybodaeth a oedd yn debygol o ddatgelu pwy oedd yr unigolyn.

22 : PENODI CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL ADNODDAU A SWYDDOG ADRAN 151

Cafodd y Pwyllgor Penodi ei ymgynnull i ystyried rhestr hir yr ymgeiswyr ar gyfer penodi Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau a Swyddog Adran 151.

Adolygodd y Pwyllgor dri chais a dderbyniwyd ar gyfer y swydd hon ac ystyried sut yr oedd yr ymgeiswyr yn bodloni'r cymwysterau hanfodol o'r Fframwaith Cymwysterau Ymddygiad a'r proffil rôl; a dethol ymgeiswyr i hargymell yr aent ymlaen i'r Ganolfan Asesu ar 22 Hydref 2018.

PENDERFYNWYD –
(1) Cyflwyno ymgeiswyr 1, 2 a 3 i'r Ganolfan Asesu ar 22 Hydref 2018;

(2) Ailgynnull y Pwyllgor ar 29 Hydref 2018 am 10:30am er mwyn ystyried yr adborth a geir gan y Ganolfan Asesu a chytuno pa ymgeisydd a aiff ymlaen am gyfweliad.

23 : DISWYDDO (OS OES ANGEN)

Nid oedd angen unrhyw ddiswyddo dilynol fel rhan o'r broses greu rhestr hir.

24 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – DYDD LLUN 29 HYDREF AM 10:30AM.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.30 am